

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/LG/2883/18

Y Gwir Anrh Claire Perry AS
Y Gweinidog Gwladol dros Ynni a Thwf Glân
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET

mpst.perry@beis.gov.uk

Medi 2018

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN Y TARIFF CYFLENWI TRYDAN

Mae ynni adnewyddadwy'n rhan hynod bwysig o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i Gymru. Rydym ni wedi ymrwymo i gefnogi prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd.

Mae cynllun y Tariff Cyflenwi Trydan (FiT) wedi bod yn gynllun llwyddiannus iawn. Mae wedi bod yn gyfrwng defnyddiol i roi prosiectau cynhyrchu trydan carbon isel bach ar waith yng Nghymru, ac yn ffordd i gynhyrchwyr gael marchnad, yn enwedig cynhyrchwyr trydan gwynt, haul, dŵr a threulio anaerobig. Bu'n fodd i aelwydydd, busnesau bach a chymunedau chwarae eu rhan i wireddu'n huchelgais o ddatblygu economi rhad-ar-garbon tra'n sicrhau bod gennym gyflenwad o ynni rhad yn y tymor hir.

Mae bron 54,000 o brosiectau FiT wedi'u cynnal yng Nghymru ers 2010, gyda capasiti gosodedig o 455MW. Gwelwyd gostyngiad amlwg yn nifer y prosiectau newydd a gynhaliwyd ers cyflwyno'r cap ar dariffau a phrosiectau newydd yn 2016. Mae'r cynnydd yn y capasiti newydd wedi cwmpo i 18% ac ar gyfer 2018, dim ond 2% sy'n gapasiti newydd. Mae hynny'n cymharu â chynnydd o 41% rhwng 2013 a 2016. Gwelir effaith hyn eisoes yn y sector pŵer dŵr, gyda phrin 8 cais newydd am drwydded codi dŵr yn dod i law Cyfoeth Naturiol Cymru ers Ionawr 2017.

Rydym wedi nodi bod nifer dda o brosiectau cymunedol a sector cyhoeddus yng Nghymru nad oes ffordd arall ganddynt i'r farchnad bellach wedi'u gohirio. Yn eu plith y mae 46MW o brosiectau cymunedol ac 14MW o brosiectau sector cyhoeddus y bydd eu dyfodol yn y fantol pe bai FiT yn cau i brosiectau newydd.

Rwyf eisoes wedi ysgrifennu atoch i ofyn ichi ailagor Pot 1 o dan rownd ddyrannu nesaf y Contract Gwahaniaeth er mwyn cynnwys prosiectau gwynt ar dir mawr y DU. Os ewch chi

yn eich blaen â'ch cynnig i ddileu tariff allforio FiT, a fydd yn golygu cau'r cynllun i bob pwrpas i ymgeiswyr newydd o fis Ebrill 2019, ni fydd unrhyw gymorth ar gyfer ynni gwynt a haul, dwy o'r technolegau cynhyrchu rhataf. Mae'r broses o roi prosiectau ar waith eisoes yn arafu a bydd yn anodd ei haildanio. Mae angen eglurder ar y sector ar fyrder ynghylch pa gymorth fydd ar gael ar gyfer prosiectau adnewyddadwy bach yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth adael yr UE.

Mae manteision prosiectau bach yn fawr. Trwy annog pobl i fuddsoddi yn y technolegau hyn, rydyn ni'n creu elfennau'r systemau lleol sydd eu hangen arnom er mwyn llwyddo fel economi gref mewn marchnad fyd-eang ddigarbon. Cynhaliodd y Ganolfan Dyfodol Carbon Isel ymchwil mewn nifer o ranbarthau dinesig o gwmpas y byd, a gweld bod rhanbarthau'r DU oedd yn rhan o'r astudiaeth yn allforio rhwng 5.9% a 18% o'u GVA, hynny dim ond i dalu'r biliau ynni. Mae sicrhau bod ynni'n eiddo i bobl leol yn gyfle da i gadw'r arian yn yr economi leol, gan gyfrannu at ffyniant y DU dros oes y datblygiad, yn enwedig ar ôl adennill y costau cyfalaf.

Yn ogystal â meithrin y sgiliau sydd eu hangen i osod a chynnal y prosiect, bydd y manteision yn cynnwys hefyd welliannau i'r rhwydwaith, hyblygrwydd i'r system a gwireddu amcanion datgarboneiddio. Ceir tystiolaeth hefyd bod yna fanteision ieched o wella ansawdd yr aer a bod datblygiadau cymunedol a thraws-sectorol yn esgor ar fwy o gydylyntiant cymdeithasol.

Rwy'n grediniol bod gan gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy gyfraniad clir a pharhaus o ran cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio Cymru a'r DU. Rwy'n eich argymhell yn gryf i gadw'r cynllun presennol tan y gellir cytuno ar drefniadau dilynol. Fel arall, mae perygl inni golli llawer o'r momentwm ynghyd â'r swyddi a'r manteision economaidd sydd wedi dod i'r DU yn sgil y tariff dros y 10 mlynedd diwethaf. O beidio â datblygu a chefnogi ffurfiau newydd ar ynni adnewyddadwy, cawn ein rhwystro rhag datgarboneiddio, cynyddu'n defnydd o adnoddau adnewyddadwy Cymru a tharo targedu ynni adnewyddadwy.

Croesewir felly'r Cais am Dystiolaeth ynghylch caniatáu i ynni adnewyddadwy fod yn rhan o'r Farchnad Gapasiti. Gallai hynny ein galluogi i barhau i gynnal rhai prosiectau mwy. Fodd bynnag, mae ein hymateb i'r Cais am Dystiolaeth ynghylch dyfodol prosiectau ynni bach yn rhoi tystiolaeth gadarn nad yw'r farchnad wedi datblygu ddigon eto i dechnolegau ynni adnewyddadwy bach allu cael eu cynnal heb beth cymorth. Rwy'n credu bod dal angen cynnig marchnad er mwyn i'r diwydiant allu cael dyfodol hyfyw. Fodd bynnag, nid oes cymorth arall i'r farchnad ar gael i gymryd lle FiT.

Bydd mesuryddion bob hanner awr, tariffau amser defnyddio a mesuryddion clyfar i gyd yn debygol o gynnig fframwaith a fydd yn gwneud prosiectau adnewyddadwy bach yn y dyfodol yn opsiwn doeth. Ond nid ydym yn rhagweld y gall y fframwaith hwn fod yn ei le tan ganol y 2020au. Mae angen ateb pontio arnom ar fyrder felly i gadw'r sgiliau a'r swyddi angenrheidiol.

Mae'r cynllun FiT presennol yn cynnig dwy elfen - cymhorthdal a gwarant pris. Nid oes gennym dystiolaeth o beth yw gwerth cymharol y ddwy elfen. Fodd bynnag, mae gennym beth tystiolaeth, yn enwedig yn y sector cyhoeddus lle gellir darparu benthyciadau rhad, bod lle i gynnal datblygiadau os gellir gwarantu prisiau dros y tymor hir. Efallai y byddwch am gynnig opsiwn fyddai ond yn gwarantu pris, gan ddarparu'r safleoedd sy'n cynnig y manteision mwyaf heb fawr o gost, os o gwbl, i Lywodraeth y DU.

Ymhlith amcanion cychwynnol FiT oedd yr awydd i alluogi cyrff a mudiadau bychain i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy at ddibenion cymdeithasol, gan gynnwys gwneud

ygni adnewyddadwy yn fwy derbyniol yn llygaid y cyhoedd. Ceir llawer o dystiolaeth o gyrff a mudiadau ym mhob sector, am nifer o resymau, yn cynnal prosiectau cynhyrchu ynni na fyddai'n creu ond elw bach iawn i ddechrau. Rydyn ni ar hyn o bryd yn cefnogi cyrff cyhoeddus a chymunedol er mwyn cyflawni nifer o ganlyniadau yng Nghymru. Un ateb posib ar gyfer FiT yn y dyfodol fyddai cynllun sy'n helpu cyrff i gyflawni dibenion cymdeithasol yn hytrach nag allforio trydan. Gallai'r dibenion cymdeithasol hynny gynnwys lleihau tlodi tanwydd, gwella cyfyngiadau'r grid, datgarboneiddio neu fanteision eraill fydd wedi'u rhagnodi. Trwy ganolbwyntio ar dalu am y canlyniadau, gallai hynny reoli'r costau gan annog atebion arloesol yr un pryd i broblemau lleol.

Byddai mesuryddion net yn ffordd effeithiol o gefnogi prosiectau bach iawn (hyd at 30kW) i bontio'r bwlch tan y 2020au. Bydd gofyn i hynny ystyried effaith gymharol cynhyrchu 'y tu ôl i'r mesurydd' ar y system.

Hoffwn dynnu'ch sylw hefyd i ddwy effaith arall cau'r cynllun FiT. Mae FiT yn annog defnyddio gosodwyr sydd wedi'u hachredu gan y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MCS). Trwy ddod â'r cynllun i ben, bydd mwy o bosibilrwydd y câi gosodwyr rhatach llai abl a heb eu cofrestru eu defnyddio. Gallai hynny arwain at osod prosiectau aneffeithiol a pheryglus, gan danseilio hyder y farchnad.

Mae'r effeithiau eraill yn ymwneud â data. Mae'r rhan fwyaf o'r data ar gynhyrchu yn cael eu casglu trwy gynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan Ofgem ar eich rhan. Wrth i'r cynlluniau hyn ddod i ben, daw eu gwaith casglu data i ben hefyd. Mae fy swyddogion wedi codi'r mater hwn gyda chi o'r blaen a byddwn yn eich annog i ystyried trefn reoleiddio well ar gyfer casglu a chofnodi data pob ffynhonnell cynhyrchu a storio sydd wedi'i chysylltu â'r grid.

Rwy'n pwysu arnoch i weithredu ar sail y dystiolaeth rwyf innau ac eraill wedi'i rhoi ichi fel ymateb i'ch ymgynghoriad a'ch cais am dystiolaeth, er mwyn cadw llwyddiant y cynllun FiT ac osgoi effeithiau economaidd a chymdeithasol sylweddol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig